



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Diogelu ein cymunedau, gyda'n gilydd Safeguarding our communities, together

Proffil Rôl – Seicotherapydd Ymddygiad Gwybyddol

Ardaloedd gwaith – Ceredigion a Phowys

Mae Adran Iechyd Galwedigaethol Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal gwasanaeth therapi seicolegol arbenigol a phwrpasol at anghenion unigol i Staff a Swyddogion o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys asesiad arbenigol, cynllunio a throsglwyddo triniaeth, gan gynnwys monitro canlyniadau fesul sesiwn. Telir £50 yr awr am ymyrraeth Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol a gytunwyd.

Yn atebol i: Uwch Reolwr – Iechyd Galwedigaethol.

Nyrs Ymgynghorol Iechyd Meddwl Galwedigaethol

Tasgau Disgwyliedig -

- Gweithio'n agos gyda Thîm Iechyd Galwedigaethol yr Heddlu, yn enwedig y Nyrs Ymgynghorol Iechyd Meddwl Galwedigaethol, i gynorthwyo gyda'r ddarpariaeth gwasanaeth seicolegol presennol wrth ddarparu therapi seicolegol ar sail tystiolaeth i Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu, gan weithio o fewn Tîm Iechyd Galwedigaethol amlddisgyblaethol sefydledig a mawr ei barch.
- Trosglwyddo ymyrraethau seicolegol arbenigol wedi eu harwain gan fformiwleiddiad ac wedi eu hargymell gan NICE, ar gyfer iselder, anhwylderau gorbryder ac Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD), gan addasu ymyrraethau ar gyfer anghenion penodol cleientiaid, a gweithio gyda chleientiaid unigol a grwpiau.
- Cymryd atgyfeiriadau o ran staff heddlu a swyddogion heddlu ar gyfer ymyrraeth seicolegol.
- Casglu a chofnodi data canlyniadau clinigol priodol fesul sesiwn; dethol a dehongli mesurau canlyniad er mwyn arwain y broses o gynllunio triniaeth.
- Gweithredu fel gweithiwr proffesiynol annibynnol o fewn canllawiau Cymdeithas Seicotherapi Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP)/ Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) / Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS).
- Darparu adroddiadau cynnydd ysgrifenedig a mesuriadau canlyniad ar gyfer pob cleient a welir.
- Sicrhau bod pob dogfennaeth berthnasol megis anfonebau, ffurflenni mesur canlyniadau, adroddiadau cynnydd cleientiaid ayb yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol.

Y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl –

- Rhaid bod wedi achredu gyda Chymdeithas Seicotherapi Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP)
- Rhaid bod yn gallu gweithio fel gweithiwr proffesiynol annibynnol a chynnal safonau ymarfer gan lynu at ganllawiau Cymdeithas Seicotherapi Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain, cymryd cyfrifoldeb am eich gwaith eich hun gan gynnwys penderfyniadau triniaeth a rhyddhau.
- Rhaid meddu ar dystiolaeth o brofiad blaenorol ac arbenigedd mewn asesu a thrin Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) ac Anhwylder Straen Wedi Trawma cymhleth.
- Rhaid bod yn gallu dangos dealltwriaeth ragorol o anawsterau cymhleth yn gysylltiedig â gwaith, neu fod â phrofiad o ddarparu ymyraethau lles o fewn y gweithle.
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg hyd at lefel 1 yn fanteisiol.
- Rhaid bod yn fodlon rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Tîm Iechyd Galwedigaethol aml-ddisgyblaethol, lle'n berthnasol.
- Rhaid cael Yswiriant Indemniad Proffesiynol.
- Rhaid cael sgiliau ysgrifennu adroddiad rhagorol.
- Rhaid bod yn barod i deithio yn eich amser eich hun i Bencadlys Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer hyfforddiant / diwrnodau datblygiad proffesiynol parhaus, fel arfer 1-2 ddiwrnod y flwyddyn; telir costau teithio.

Hyfforddiant –

- Bydd hyfforddiant cynefino yng ngweithdrefnau Darpariaeth Lles Seicolegol Iechyd Galwedigaethol ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yn ofynnol.
- Hyfforddiant yng ngweithdrefnau'r heddlu yn ôl y gofyn.
- Bwriad y sefydliad yw darparu diwrnodau hyfforddi ac astudio perthnasol yn flynyddol; bydd disgwyl i chi wneud pob ymdrech i fod yn bresennol.

Er mwyn ymgeisio, rydym angen

- Curriculum Vitae dilys a chyfredol
- Manylion 2 unigolyn a all roi geirda proffesiynol; un yn Oruchwylydd Clinigol presennol ac un yn rheolwr presennol.

NODER – BYDD YR YMGEISYDD LLWYDDIANNUS YN GWEITHIO AR SAIL HUNANGYFLOGEDIG AC FELLY **NI FYDD** YN WEITHIWR CYFLOGEDIG YN HEDDLU DYFED-POWYS. FODD BYNNAG, OS YN LLWYDDIANNUS YN Y CYFWELIAD, BYDD ANGEN I'R YMGEISYDD DDILYN PROSES FETIO'R HEDDLU CYN Y BYDDIR YN PENODI.